

ARTS ALIVE WALES, Portffolio 2015 (llun: Toril Brancher)

# Arolwg o Bartneriaethau a Buddsoddi Celfyddydol Awdurdodau Lleol Cymru

# 2014/15

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Arts Development : UK
Working nationally, delivering locally

Y Tîm Ymchwil
Mai 2016

# Arolwg o Bartneriaethau a Buddsoddi Celfyddydol Awdurdodau Lleol Cymru

# 2014/15

## Cefndir

Er 2013 mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Datblygu'r Celfyddydau, Prydain ar arolwg cyfunol o bartneriaethau a buddsoddi celfyddydol yr awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion y ddau sefydliad.

Anfonodd Datblygu'r Celfyddydau, Prydain arolwg ar-lein at bob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu lefel rhagolwg gwariant ar y celfyddydau ar gyfer 2015/16 ac am y tro cyntaf, arolwg ar wahân ond cymaradwy, parthed gwasanaethau a gontractir allan.

Cynhyrchodd Datblygu'r Celfyddydau, Prydain adroddiad ar y set ddata gyflawn http://artsdevelopmentuk.org/2015/09/arts-devarts-development-uk-local-authority-arts-investment-partnership-survey-2015/.

Mae'r canlynol yn grynodeb gan Gyngor Celfyddydau Cymru o'r wybodaeth am wariant sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol Cymru.

## Crynodeb

- Gwariodd 14 o awdurdodau lleol Cymru (gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a gontractir allan) £20.4 miliwn ar y celfyddydau yn 2014/15, ar gyfartaledd £8.71 y pen o'r boblogaeth.

- Dengys sampl lawn arolwg Datblygu'r Celfyddydau, Prydain (gydag awdurdodau lleol Cymru a Lloegr) gyfanswm cyllidebol o £201 miliwn, ar gyfartaledd £2.73 y pen yn 2014/15.

- Gwariant ar gyfartaledd ar y celfyddydau pob awdurdod lleol/darparwr gwasanaethau a gontractir allan yng Nghymru a ymatebodd oedd £1,454,400 yn 2014/15 gydag ystod o cyn lleied â £53,850 hyd uchafbwynt o £11,374,200.

- Rhagwelir, flwyddyn ar flwyddyn, y syrth cyllideb gelfyddydol awdurdodau lleol Cymru ar gyfradd uwch (-13.1%) na'r cyfartaledd i awdurdodau lleol Lloegr (0.1%) yn 2015/16 gan awgrymu y cymerodd toriadau'r Llywodraeth ganolog a'r Llywodraeth ddatganoledig yn hwy i effeithio ar Gymru.

- O ran gwariant ar y celfyddydau mae'r sefyllfa yn amrywio. Amrywia'r newidiadau a ragwelir o 2014/15 i 2015/16 o leihad o -29.0% i gynnydd o 13.2% ymhlith yr awdurdodau lleol a ymatebodd.

- Ar draws yr awdurdodau lleol a ymatebodd mae costau staffio, ar gyfartaledd, yn cyfrif am ychydig llai na hanner (44.8%) cyfanswm cyllideb y celfyddydau. Rhagwelir y syrth cyfanswm y gwariant gan -13.1% flwyddyn ar flwyddyn ond rhagwelir y syrth y gyllideb staffio gan -15.9% yn 2015/16.

- Cyfanswm y gwariant refeniw gan yr awdurdodau lleol yw £17.3 miliwn yn 2014/15. Gwariwyd dros bedair rhan o bump (81.5%) o'r gwariant refeniw hwn ar reoli uniongyrchol y lleoliadau celfyddydol.

- Nododd dim ond traean (35.7%) o'r awdurdodau lleol a ymatebodd wariant ar waith cyfalaf yn ystod 2014/15, cyfanswm o £1.2 miliwn.

- Cyfanswm yr incwm a enillir gan bob awdurdod lleol a ymatebodd oedd £5.7 miliwn mewn ystod o £2,200 i £3.9 miliwn a gellid esbonio hyn yn bennaf gan ystyried gwerthiant tocynnau.

- Cyfloga'r awdurdodau lleol 319 o weithwyr cyfwerth â llawn amser. O'r rhain, cynnwys 37 swydd gyfwerth â llawn amser gyfrifoldeb am bolisi'r celfyddydau neu waith datblygu'r celfyddydau.


- Gweithia gwasanaethau celfyddydol Cymru yn gyson mewn partneriaeth gydag adrannau eraill y cyngor gan gynnwys addysg (71.4%), llyfrgelloedd (64.3%), gwasanaethau cymdeithasol (57.1%), twristiaeth a digwyddiadau (57.1%), gwasanaethau ieuenctid (57.1%) a gwasanaethau i oedolion (57.1%), a thrwy gydweithio cânt effaith ar ddatblygu a darparu polisïau corfforaethol.

## Cyflwyniad

Megis yr arolygon blaenorol, gofynnodd arolwg 2015 gwestiynau a ganolbwyntiai ar wybodaeth ariannol, effaith y toriadau ariannol (os oedd unrhyw doriadau), newidiadau yn ffocws yr ariannu a'r symudiad tuag at gontractio gwasanaethau allan. Pan fo'n bosibl, gwneir cymariaethau drwy gydol yr adroddiad hwn ag arolygon y blynyddoedd diwethaf.

## Yr ymatebwyr

Ymatebodd 13 (59.1%) o 22 awdurdod lleol Cymru yn uniongyrchol i'r arolwg. Cynhwyswyd un ardal awdurdod lleol bellach (4.5%) gan ymateb i'r holiadur drwy wasanaethau a gontractir allan. Yn atodiad 1 mae rhestr o'r awdurdodau lleol a ymatebodd.



## Rhanbarthau Cyngor Celfyddydau Cymru

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn ôl rhanbarthau Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfartal ar draws y 4 rhanbarth. Dim ond wrth gymharu canran yr ymatebwyr yn ôl rhanbarth unigol y daw gwahaniaeth i'r amlwg. Ymatebodd pedair rhan o bump (80%) o awdurdodau lleol yng Nghanolbarth y De o'u cymharu â hanner (50%) o awdurdodau lleol yn y Gogledd.

| | 2014 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhanbarth** | **Nifer** | **Cyfradd Ymateb Rhanbarthol** | **Nifer** | **Cyfradd Ymateb Rhanbarthol** |
| Gogledd | 3 | 50.0% | 3 | 50.0% |
| De-Orllewin | 5 | 83.3% | 4 | 67.7% |
| De Canol | 4 | 80.0% | 4 | 80.0% |
| De Ddwyrain | 4 | 80.0% | 3 | 60.0% |
| **Cyfanswm** | **16** | **72.7%** | **14** | **63.6%** |

## Poblogaeth yr awdurdodau lleol a gynhwyswyd yn yr ymatebion

Wrth gymharu ymatebion i'r arolwg yn ôl maint y boblogaeth, gellid gweld bod ymgysylltu ag awdurdodau mwy (gyda phoblogaeth o 150,001+) yn fwy llwyddiannus nag ymgysylltu ag awdurdodau llai. O bob awdurdod lleol yng Nghymru gyda phoblogaeth rhwng 50,000 a 100,000, dim ond 1 (14.3%) a gymerodd ran yn arolwg 2015.


| | 2015 | | Pob Awdurdod Lleol Cymru yn ôl maint | |
|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth**[1] | **Nifer** | **Cyfradd ymateb yn ôl maint yr ALl** | **Nifer** | **Canran o'r holl ALl** |
| 50,000 to 100,000 | 1 | 14.3% | 7 | 31.8% |
| 100,001 to 150,000 | 7 | 77.8% | 9 | 40.9% |
| 150,001 to 200,000 | 3 | 100.0% | 3 | 13.6% |
| 200,001 to 300,000 | 2 | 100.0% | 2 | 9.1% |
| 300,001+ | 1 | 100.0% | 1 | 4.5% |
| **Total** | **14** | **63.6%** | **22** | **100.0%** |

[1] Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, 2014 Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar ganol y flwyddyn.

## Gwariant ar y celfyddydau

Cyfanswm cyllideb gelfyddydol y 14 awdurdod lleol a darparwr gwasanaethau a gontractir allan a ymatebodd yn 2014/15 (gan gynnwys staffio, darparu gwasanaethau, lleoliadau, hyrwyddo, marchnata, costau grantiau a rhaglenni) oedd £20.4 miliwn neu £8.71 y pen.

Gwariant celfyddydol ar gyfartaledd pob awdurdod lleol a darparwr gwasanaethau a gontractir allan a ymatebodd yn 2014/15 oedd £1,454,400 a amrywiai o cyn lleied â £53,850 hyd uchafbwynt o £11,374,200. Roedd cyfanswm o 4 awdurdod a ymatebodd gyda gwariant a oedd yn fwy na £1 miliwn.



O'r ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg, £17.7 miliwn yw'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2015/16 sy'n lleihad cyffredinol o -13.1% o'i gymharu â gwariant 2014/15. Wrth gymharu gwariant arfaethedig yr ymatebwyr unigol â'r flwyddyn flaenorol , amrywia'r newidiadau o leihad o -29% i gynnydd o 13.2%.

| Cyfanswm Cyllideb Celfyddydol | Ymatebwyr | Cyfanswm cyllidebol | Cyllideb Cyfartalog fesul Ymatebydd | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| **2015/16 Rhagamcanol** | 14 | £17,691,521 | £1,263,680 | -13.1% |
| **2014/15 Gwirioneddol** | 14 | £20,361,755 | £1,454,411 | - |
| **Lloegr** | | | | |
| **2015/16 Rhagamcanol** | 46 | £34,579,513 | £751,729 | -0.1% |
| **2014/15 Gwirioneddol** | 46 | £34,602,952 | £752,238 | - |

Er gwaethaf y ffaith bod ymatebwyr Cymru wedi rhagamcanu lleihad o -13.1% yng nghyfanswm y gwariant yn 2015/16 ac ymatebwyr Lloegr yn rhagamcanu lleihad o -0.1%, mae cyllideb ar gyfartaledd am bob awdurdod unigol yn llai yn Lloegr nag yng Nghymru.

Oherwydd yr amrywiaeth cyllidebol rhwng ymatebwyr Cymru a Lloegr, amrywia patrymau gwario'r pen hefyd:

- Gwariant celfyddydol arfaethedig Cymru yn 2015/16, y pen o'r boblogaeth, yw £7.56.
- Gwariant celfyddydol arfaethedig Lloegr yn 2015/16, y pen o'r boblogaeth, yw £2.16.

## Costau staffio

Mae costau staffio ar draws yr awdurdodau lleol a ymatebodd, ar gyfartaledd, ychydig yn llai na hanner (44.8%) o gyfanswm y gyllideb gelfyddydol (£9.1 miliwn yn 2014/15). Rhagwelir y syrth cyfanswm y gwariant gan -13.1% flwyddyn ar flwyddyn ond rhagwelir y syrth y gyllideb staffio gan -15.9% i £7.7 miliwn yn 2015/16.

Wrth gymharu awdurdodau lleol unigol, mae un yn gyfrifol am ddwy ran o bump (61.4%) o'r lleihad arfaethedig o -£1.4 miliwn yn y gyllideb staffio gyffredinol. O'r 14 awdurdod lleol a ymatebodd, nododd pump ohonynt gynnydd yn eu cyllideb staffio o 2014/15 i 2015/16, ni nododd dau ohonynt newid yn y gyllideb a nododd saith leihad. Amrywia'r newid yng nghostau arfaethedig staffio'r awdurdodau lleol unigol o -67.4% i +52.1%.


## Dadansoddiad o wariant 2014/15

| | | Count | Total (£'s) | % of Total |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant ar leoliadau sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol (er enghraifft, theatrau, canolfannau'r celfyddydau, orielau ac yn y blaen) | | 8 | £14,071,986 | 76.0 |
| Gwariant ar wasanaethau celfyddydol sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol / eu darparu'n uniongyrchol | | 9 | £1,813,254 | 9.8 |
| Gwariant ar grantiau i sefydliadau sy'n cael arian refeniw (sefydliadau refeniw) | Grantiau i sefydliadau refeniw sy'n cael eu hariannu ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru | 9 | £741,783 | 4.0 |
| Gwariant ar grantiau i sefydliadau sy'n cael arian refeniw (sefydliadau refeniw) | Arian refeniw i sefydliadau celfyddydol nad ydynt yn sefydliadau refeniw Cyngor Celfyddydau Cymru | 6 | £242,247 | 1.3 |
| Gwariant ar grantiau cymunedol neu brosiect ar gyfer y gwasanaethau celfyddydol | | 10 | £250,773 | 1.4 |
| Gwariant ar gyfleusterau'r celfyddydau sy'n cael eu contractio allan neu sy'n cael eu gweithredu dan y statws o fod yn ymddiriedolaeth | | 1 | £156,498 | 0.8 |
| Cyfanswm gwariant refeniw | | 14 | £17,276,541 | 93.3 |
| Gwariant cyfalaf ar brif weithiau ac adnewyddu | | 2 | £922,121 | 5.0 |
| Gwariant cyfalaf ar ddatblygiadau strategol newydd | | 3 | £272,291 | 1.5 |
| Cyfanswm y gwariant ar brosiectau cyfalaf (gan beidio â chynnwys ad-daliadau cyfalaf neu gostau mewnol yr ailgodir tâl amdanynt) | | 5 | £1,241,375[2] | 6.7 |
| Cyfanswm y gwariant | | 14 | £18,517,916 | 100.0 |

[2] Ni nododd un awdurdod lleol ym mha gategori y digwyddodd ei Wariant Cyfalafol.

## Gwariant Refeniw

Cyfanswm y gwariant refeniw oedd £17.3 miliwn yn 2014/15. Gwariwyd dros bedair rhan o bump (81.5%) o'r gwariant refeniw hwn ar reoli uniongyrchol y lleoliadau celfyddydol.




Cafodd y gwasanaethau celfyddydol a reolir yn uniongyrchol 10.5% o holl wariant refeniw'r awdurdodau lleol ond dosbarthwyd 4.3% o'r gwariant mewn grantiau i sefydliadau sy'n cael arian refeniw a ariannwyd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru.


## Gwariant cyfalaf

Nododd traean (35.7%) o'r awdurdodau lleol a ymatebodd gyfanswm gwariant ar waith cyfalaf yn ystod 2014/15 o £1.2 miliwn. Roedd un awdurdod lleol yn gyfrifol am dri chwarter (75.7%) o'r holl wariant cyfalaf ac amrywia'r gwariant hwn ymhlith yr awdurdodau lleol o £47,000 i £940,000.

## Gwariant yn ôl sampl gyson o awdurdodau lleol

Ymatebodd deg awdurdod lleol yng Nghymru i'r arolwg hwn gyda data gwariant cyson yn y ddwy flynedd diwethaf. Ar gyfer yr awdurdodau hyn mae gennym erbyn hyn ddata gwariant arfaethedig am dair blynedd sef 2013/14, 2014/15 a 2015/16.

Dengys y graff isod y syrthiodd gwariant celfyddydol y 10 awdurdod hyn gan bron £2.5 miliwn dros y tair blynedd.




Syrthiodd gwariant y 10 awdurdod lleol hyn rhwng 2013/14 a 2015/16 gan draean bron (-31.8%) o £7.8 miliwn i £5.3 miliwn. Roedd y cwymp rhwng 2014/15 a 2015/16 yn llai sef -11.4%.

Nododd 8 o'r 10 awdurdod lleol leihad gwariant o 2013/14 i 2015/16 (yn amrywio o -6.4% i -94.2%), ond nododd y ddau arall gynnydd.

## Cynhyrchu incwm ar gyfer gwasanaethau celfyddydol

Yn ystod 2014/15 nododd naw o'r 14 awdurdod a ymatebodd iddynt gael cyfanswm o £991,000 o arian loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a hefyd £309,000 pellach o arian refeniw craidd.

## Incwm a enillir

Nododd naw o'r 14 awdurdod lleol werth yr incwm a enillir o werthu tocynnau, ffioedd gweithgarwch, nwyddau ac yn y blaen. Cyfanswm yr incwm a enillir gan bob awdurdod lleol a ymatebodd oedd £5.7 miliwn mewn ystod o £2,200 i £3.9 miliwn a gellid esbonio hyn yn bennaf gan ystyried gwerthiant tocynnau.

## Barn am ariannu'r celfyddydau yn y dyfodol

Gofynnwyd i awdurdodau lleol nodi eu barn am gyfeiriad a rhagolwg ariannu'r celfyddydau yn y dyfodol yn y flwyddyn ariannol. Leisiodd dau ymatebwr farn y byddai eu hariannu celfyddydol yn ddigyfnewid heb chwyddiant ac roedd ymatebydd arall yn disgwyl y byddai'n ddigyfnewid gyda chwyddiant. Credai'r rhan fwyaf o awdurdodau (10) y lleiheir gwariant ar y celfyddydau oherwydd y toriadau cyllidebol cyffredinol a wyneba awdurdodau lleol Cymru. Nododd pump o'r awdurdodau a ymatebodd hefyd fod posibilrwydd o gontractio allan wasanaethau yn y flwyddyn nesaf.

Yn y tymor hwy (y ddwy flynedd nesaf) credai pob awdurdod ond un y lleiheir eu cyllideb gelfyddydol a chred tri ohonynt y bydd eu gwasanaeth mewn perygl o gau. Ystyriai pump o'r awdurdodau hyn fod eu gwasanaethau celfyddydol yn debygol o gael eu contractio allan yn y dyfodol i gontractiwr lleol neu ranbarthol i wneud arbedion yn y gyllideb.

## Cyflogaeth

Ymatebodd pob un o'r pedwar awdurdod ar ddeg i'r cwestiwn cyflogaeth. Cyflogant gyfanswm o 318.8 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. O'r gweithwyr hynny mae 37 swydd sy'n gyfwerth â llawn amser yn cynnwys y cyfrifoldeb dros y polisi celfyddydol neu'r gwaith o ddatblygu'r celfyddydau. Ar gyfartaledd, cyfloga pob awdurdod 22.8 o bobl mewn ystod o hanner swydd llawn amser yn unig i 120 swydd gyfwerth â llawn amser.

Gan obeithio am y gorau, nododd deg o'r awdurdodau a ymatebodd na ddisgwylient golli swyddi yn y gwasanaeth diwylliannol yn 2015/16 ond disgwyliai tri golli swyddi.

O ran swyddi'r gweithwyr unigol a ymatebodd, disgwyliai pedwar o'r tri ar ddeg ' newidiadau sylweddol' yn eu swyddi tra credai pedwar arall fod eu swyddi 'mewn perygl o ddioddef toriadau ysgubol'. Roedd tri'n ansicr am eu swyddi yn y dyfodol a theimlai un yn 'ddiogel' yn ei swydd.

O'r 14 awdurdod, cafodd chwech eu hailstrwythuro yn y ddwy flynedd diwethaf ac mae dau ar fin cael eu hailstrwythuro.

## Cyfraniad y celfyddydau at Flaenoriaethau Corfforaethol

Gellir gweld bod y celfyddydau'n cyfrannu at sawl agenda yn y cynghorau.

Nododd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol (13 allan o'r 14) fod eu gwasanaeth celfyddydol yn cyfrannu at amrywiaeth o themâu trawsbynciol:

| | No. | % |
|---|---|---|
| Iechyd a lles oedolion | 14 | 100.0 |
| Iechyd a lles plant | 14 | 100.0 |
| Mynd i'r afael ag eithriad cymdeithasol | 14 | 100.0 |
| Hyrwyddo cydraddoldeb | 14 | 100.0 |
| Plant a phobl ifainc (addysg) | 14 | 100.0 |
| Economi leol a chynaliadwyedd (adfywio a thwristiaeth) | 14 | 100.0 |
| Cymunedau cryfach a diogelach | 13 | 92.8 |

Nododd ymatebwyr eu bod yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o adrannau eraill yn eu hawdurdodau lleol i ddarparu gweithgarwch/gwasanaethau celfyddydol i ddiwallu eu hamcanion corfforaethol. Mae'r gwahanol adrannau'n cael eu rhestru isod ochr yn ochr â nifer yr awdurdodau lleol a nododd fod y gweithgarwch hwn wedi digwydd.

| | No. | % |
|---|---|---|
| Addysg (er enghraifft, darparu gwasanaeth cerddoriaeth, theatr mewn addysg) | 10 | 71.4 |
| Llyfrgelloedd (er enghraifft, grwpiau ysgrifennu creadigol) | 9 | 64.3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol (er enghraifft,celfyddyd mewn lleoliadau gofal cymdeithasol) | 8 | 57.1 |
| Twristiaeth a digwyddiadau (er enghraifft, carnifalau, gorymdeithiau â llusernau, gigs yn yr awyr agored) | 8 | 57.1 |
| Gwasanaethau ieuenctid (e.e. gweithdai celfyddydol i bobl ifainc y tu allan i amser ysgol) | 8 | 57.1 |
| Addysg oedolion (er enghraifft, dosbarthiadau celfyddydol) | 7 | 50.0 |
| Ardaloedd gwledig a pharciau (er enghraifft, y celfyddydau yn yr awyr agored) | 7 | 50.0 |
| Amgueddfeydd/datblygu amgueddfeydd ac archifdai | 7 | 50.0 |
| Hamdden/Chwarae (er enghraifft, darpariaeth gelfyddydol cynllun chwarae, dawns ar gyfer iechyd) | 6 | 42.9 |
| Gwasanaethau archeoleg/treftadaeth | 3 | 21.4 |
| Cyfathrebu corfforaethol (er enghraifft, mewn diwrnodiau hwyl i'r teulu) | 3 | 21.4 |
| Tai (er enghraifft, celfyddyd yn gyhoeddus) | 3 | 21.4 |
| Arall (rhowch fanylion) | 2 | 14.3 |

## Blaenoriaethau Ariannol

Noda'r rhestr ganlynol flaenoriaethau ar hyn o bryd yr ymatebwyr i ddatblygu eu gwasanaethau celfyddydol. Mae'r rhain bron air am air ond tynnwyd rhai manylion penodol i'w cadw'n ddienw a chyfrinachol.

- Ariannu - marchnata, deunyddiau, rhagolygon preifat
- Darparu arbedion effeithlonrwydd/cynnal safon a lefel y gwasanaeth dan ragor o bwysau cyllidebol
- Ailaleinio cyllideb y grant celfyddydol i flaenoriaethu prosiectau cynhwysiad cymdeithasol yn hytrach na digwyddiadau uchel eu proffil
- Darparu gwasanaethau gan gadw at y gyllideb gyda phrosiectau sy'n seiliedig ar gynyddu ymgyfranogi o'r celfyddydau
- Cynhyrchu cymaint o incwm â phosibl
- Ystyried arbedion pellach o ran effeithlonrwydd staffio
- Diogelu arian i'r celfyddydau cymunedol a chefnogi lleoliadau diwylliannol
- Datblygu mentrau/sefydliadau cynaliadwy
- I ddarparu arian digonol i sefydliadau celfyddydol osgoi cau/dod i ben â chyfleusterau, lleoliadau, gweithgareddau a gwasanaethau celfyddydol
- Sicrhau bod arian yn effeithiol o ran esgor ar y canlyniadau a bennwyd
- Cynyddu incwm o'r swyddfa docynnau, llogi ystafelloedd, gweithdai, bariau ac yn y blaen

## Partneriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru

Nododd yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg fod 16 o sefydliadau arian refeniw a ariannwyd mewn partneriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

Pan ofynnwyd iddynt am natur eu perthynas â'u swyddog arweiniol o Gyngor Celfyddydau Cymru o ran y cysylltiad, y cyngor a'r gwaith mewn partneriaeth, dywedodd 8 o'r 14 awdurdod lleol a ymatebodd (57.1%) fod ganddynt berthynas 'weithredol a datblygol' gyda hwy. Dywedodd 5 pellach (35.7%) fod ganddynt berthynas 'niwtral' a 1 (7.1%) berthynas 'negyddol ac ymgiliol'.

Cafwyd atebion amrywiol i gwestiwn agored am y berthynas gyda Chyngor Celfyddydau Cymru o "Mae gennym berthynas dda gyda'r Cyngor a cheisiwn roi gwybod i'n gilydd am ddatblygiadau pan fo gennym amser" i "Newidiodd y Cyngor ein swyddog dynodedig ond heb ddweud wrthym. Ychydig iawn o gysylltiad a fu â'n swyddog dros y flwyddyn ddiwethaf."

## Atodiad 1

## Yr awdurdodau lleol a ymatebodd i arolwg 2014/15

1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
2. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
3. Cyngor Sir Gâr
4. Dinas a Sir Abertawe
5. Dinas a Sir Caerdydd
6. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
7. Cyngor Sir y Fflint
8. Cyngor Gwynedd
9. Casnewydd Fyw
10. Cyngor Sir Penfro
11. Cyngor Sir Powys
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
13. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
14. Cyngor Bro Morgannwg